



Cofnodion/Minutes

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Dyddiad/Date:	12/06/2023	am 7:00 yh/ at 7:00pm
---------------	------------	-----------------------

Gynhaliwyd / Held.... Yn y Ganolfan Abergynolwyn

Presennol

Y Cadeirydd Emrys Thompson a'r Cyngorwyr Bethan Lawton, Gwynedd Roberts, Elwyn Evans, Robert Jones, Eleri Puw, Steve Lewis. Hefyd Liz Porrett sef un o'r ddwy sydd wedi ymgymeryd a swydd Prif Weithredwr Rheilffordd Talyllyn o ganlyniad i ymadawriad Stuart Williams sydd wedi derbyn swydd ar ynys Orkney yr Alban.

Cyflwynwyd Liz Porrett gan Emrys.

Cafwyd datganiad a thrafodaeth dda rhwng y pwylgor a Liz Porrett i weithio gyda'n gilydd er mwyn lles yr ardal i ehangu yr ochor dwristiaeth 'Llechi' a'r rheilffordd. Roeddym gyda golwg i gael wagen lechi wedi ei rhoi ar gyrrion y pentre i ddynodi pwysigrwydd y diwydiant i'r ardal yn y gorffenol. Nodwyd nad oedd yna wagen yn sbar gan y rheilffordd a buasai rhaid adeiladu un o'r newydd. Byddai hyn yn bosib trwy wirfoddolwyr adeiladu un ond fe fyddai rhaid talu am y defnyddiau. Amcan bris oddeutu £2000, a byddai y mwyaf yn mynd ar gostau archebu yr olwynion ar echlau. Roedd Liz am bwysleisio y byddai rhaid gwneud copi o un gwreiddiol neu fe fyddai rhai yn siwr o dynnu sylw at y diffygiau. Roedd yn meddwl byddai posib chwilio am grantiau ir prosiect a byddai yn syniad holi Anna i ddechrau.

Mae cynlluniau ar y gweill o ailadnewyddu y 'Turn Table' ar dop yr inclein i'r pentref. Maent hefyd wedi rhoi cynnig am grant i gael adeilad er mwyn arddangos y safle Treftadaeth a'r rheilffordd, i ddod a'r stori i'r amlwg. Diolchwyd i Liz Porrett am ddod i drafod ar cydweithio gyda'n gilydd ac fe ymadawodd cyn inni fynd i'r agenda swyddogol.

1. Ymddiheuriadau: Dylan Jarman, Miriam Webb
2. Rheilffordd Talyllyn/ Wedi ei drafod uchod cyn y pwylgor arferol
3. Datgan diddordeb/ Declaration of interest: Dim
4. Derbyn Cofnodion/ Cafwyd y cofnodion yn gywir, Gwynedd R yn cynnig gyda Eleri Puw yn eilio. Pawb o'r farn. Arwyddwyd y cofnodion..
5. Cae Chwarae :- Eisiau torri gwair yno.
6. Mynwentydd:- Wedi torri gwair yny Llan. Cwyn wedi dod i law ar gostau claddu llwch ac awgrymwyd rhoi ail olwg ar weithio allan y costau
7. Llwybrau:- Ddim yn wlyb ar hyn o bryd ac felly ddim yn broblem.
8. Toiledau:- Dim cwyn. Maent yn gweithio yn iawn.
9. Adroddiad Cadeirydd. Wedi derbyn ebost yn cymeradwyo cyfrifon 2019/20 gan yr arolygwyr allanol. Pob dim yn iawn. Mae angen hysbysebu hyn ar yr hysbysfwrdd. RJ yn llofnodi ffurflen o Gyngor Gwynedd, eu bod yn cymeryd ar gwaith o archwiliad mewnol.
10. Adroddiad Clerc:- Emrys; Rhestr blynnyddol o ddyddiadau pwylgorau Cyngor
11. Cyllideb:- Infois gan y Ganolfan am ein cyfarfodydd, angen cywiro a Emrys i fynd yn ôl atynt.
12. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton:- Gwaith Cyngor Gwynedd: Atgyweirio canllawiau pont Dolamarch(Llwyn). 2.Ffens ar dop wal ger Ty Pridd Talyllyn.
Rhannu pamffledi, Cartrefi Gwynedd (Homeshare) yn ymwneud ac edrych ar ôl personau oedranus.
Wedi methu cyfarfod diwethaf y Bwrdd lechyd ond wedi cael adroddiad nad yw y ddau newydd sydd yn mynd i fod yn gweithio yr yr adran man anafiadau wedi gorffen hyfforddi a yr aelod arall yn cael mwy o amser i wella ar ol y ddamwain. Bwriad agor cyn yr haf. 'Out at Home Nursing' Tuag adra yn gweithio yn dda a clinica newydd sef newid 'dressings' ayyb i weld yn gweithio. Dau gar i weithio allan yn y gymuned a rhannu gwaith ward yw'r ffordd debygol mae hyn i weithio pam fydd y ward yn ail agor.
13. Ciosg:- Groesffordd a Minffordd yn gweithio. Dim i'w adrodd o safle Tynybryn gan fod Liz Saville wedi ateb yn ol gan ddweud fod hyn yn fater i Senedd Caerdydd ac y byddai gofyn unwaith eto i Mabon ap Gwynfor edrych ar y pwynt. Wedi anfon ebost ato.
14. Un llais:- Elwyn, pwylgor polisi ddydd Gwener ond ddim nodiadau wrth law, adrodd tro nesaf.
15. Un llais:- Cais i fynychu cyhadledd Un llais. Camgymeriad a'i anwybyddu.
16. Safle Treftadaeth:- Steve Lewis yn adrodd o bwylgor y Ganolfan ynglyn ac arwydd Llechi. Mae angen llythyr o'r ganolfan a hefyd llythyr o gwyn gan unrhywun cyn y gallwn cael trafodaeth ar y pwnc.

17. Tombola:- i'r Carnifal, eisiau gwirfoddolwyr a cyfraniadau. Pob dim i Miriam neu y pwylgor nesaf.

18. Coeden Geiros yn difrodi wal a rhwystro parcio. Awgrymwyd ein bod yn gofyn i Arwyn ac Owain am bris i'w thorri? Ond cytunwyd y byddai hyn yn arwain at welliannau i rai elwa, ac nid yw'r tir a saif y goeden arni yn eiddo i'r Cyngor. Cyswllt gyda Edwin (RJ) i gael gair ynglyn a choed o'r dorlan bella i'r afon os yw yn eiddo iddo?

Parcio ger capel Jeriwsalem, pasiwyd ein bod yn mynd yn ôl at Mark Mortimer am ddiweddariad.

Unrhyw fater arall:- Dim.

Cartref Mari Jones:-£6 + yn y blwch rhoddion. Rododendron wedi marw yn dda ac eisiau sylw i'r 'saplings' newydd.

Cyfarfod i ben 8.35y.h.

Present

Chairman Emrys Thompson and Councilors Bethan Lawton, Gwynedd

Roberts, Elwyn Evans, Robert Jones, Eleri Puw, Steve Lewis. Also Liz Porrett who is one of the two who have taken up the positions of Chief Executive of the Talyllyn Railway as a result of the departure of Stuart Williams who has accepted a position on the Island of Orkney in Scotland.

Liz Porrett was introduced by Emrys.

There was a good discussion between the committee and Liz Porrett who agreed to work with us for the benefit of the area to expand the 'Llechi' tourism side and the railway.

We were looking to have a slate wagon placed on the edge of the village to indicate the importance of the industry to the area in the future. It was noted that there was no spare wagon in the railway and one would have to be built from scratch. This would be possible through volunteers to build one but the materials would have to be paid for. Price objective around £2000, and the majority would go on the costs of ordering the wheels

Liz wanted to emphasize that a copy of an original would have to be made as accurate as possible to the genuine article or some would be sure to notice. She thought it would be possible to look for grants for the project and it would be an idea to ask Anna to begin with.

Plans are underway to refurbish the 'Turn Table' at the top of the incline to the village.

They have also applied for a grant to obtain a building in order to display the Heritage Site story and the railway, to bring the story alive.

Liz Porrett was thanked for coming to discuss working together, She left before we got to the official agenda.

1. Apologies: Dylan Jarman, Miriam Webb
2. Talyllyn Railway/ Discussed above before the usual committee
3. Declaration of interest/ Declaration of interest: None
4. Acceptance of Minutes/ The minutes were received correctly, Gwynedd R proposed with Eleri Puw seconding. All agreed. The minutes were signed..
5. Playground :- Grass needs cutting
6. Cemeteries:- grass has been cut in Llan. A complaint has been received on the cost of burial of cremated remains and it was suggested to give a second look at working out the costs
7. Footpaths:- Not wet at the moment and therefore not a problem.
8. Toilets:- No complaint. They work fine.
9. Chairman's report. Received an email approving the 2019/20 accounts by the external inspectors. Everything is fine. This needs to be advertised on the notice board RJ to sign a form from Gwynedd Council, that they take on the work of the internal audit.
10. Clerk's Report:- Emrys; Annual list of Council committee dates agreed
11. Budget:- Bill received from the Ganolfan regarding our meetings, need to be corrected and Emrys to go back to them.
12. Councilor Beth Lawton's report:- Gwynedd Council's work: Repair Dolamarch (Llwyn) bridge guidelines. 2. A fence on top of a wall near Ty Pridd Talyllyn. Distribution of pamphlets, Cartrefi Gwynedd (Homeshare) relating to and looking after elderly persons.
Missed the last Health Board meeting but had a report that two new members of staff are going to be working in the minor injury section having finished training and the other member is having more time to recover after the accident. Intended to open before the summer. 'Out at Home Nursing' Towards home is working well and a new clinic which is changing 'dressings' etc seems to be working well. There are two cars to work out in the community and staff will share ward and community work when ward re opens.
13. Kiosk:- Groesffordd and Minffordd working. Nothing to report from Tynbryn as Liz Saville has replied saying that this is a matter for Cardiff and that Mabon ap Gwynfor would once again be asked to look at the matter, she has sent him an email.
14. One voiceWales :- Elwyn, policy committee on Friday but no notes at hand, report next time.
15. One Voice Wales:- Application to attend the One Voice conference. Mistake and ignore it.
16. Heritage Site:- Steve Lewis reports from the Center committee regarding the Slate sign. We need a letter from the center and also a letter of complaint from anyone before we can have a discussion on the subject.

17. Tombola:- for the Carnival, want volunteers and contributions. Everything to Miriam or the next committee.

18. Cherry tree damaging a wall and parking issues. It was suggested that we ask Arwyn and Owain for a price to cut? But it was agreed that this would lead to improvements for some to benefit, and the land on which the tree stands is not owned by the Council. Contact Edwin (RJ) to get more information regarding trees possibly on his property next to the riverParking near the Jerusalem chapel, it was passed that we go back to Mark Mortimer for an update.

Any other matter:- None.

Home of Mari Jones:-£6 + in the donation box. Rhododendron is dying but attention will be needed to the new 'saplings'.

Meeting ends at 8.35pm.

Cyfarfod Nesaf:
Next meeting:

10/7/2023 @7:00yh

Llofnod y Cadeirydd/ Chair Signature

Dyddiad/Date

clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com